# Pecyn Dogfennau

Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth
Pensiwn Cymru
Uned Gwasanaethau Democrataidd
Adran y Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gar
Neuadd y Sir
Caerfyrddin SA31 1JP.

**DYDD GWENER, 1AF MEHEFIN, 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** A GYNHELIR YN **YSTAFELL BWYLLGOR 4, NEUADD Y SIR, GLANFA'R IWERYDD, CAERDYDD, CF10 4UW** AM **2.00 P.M.** AR **DDYDD LLUN, 11EG MEHEFIN, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**

**CYNGOR SIR GAR**

**SYLWCH:** BYDD Y CYFARFOD HWN YN CAEL EI FFILMIO I'W DDARLLEDU'N FYW NEU AR ÔL I'R CYFARFOD ORFFEN. GALLAI'R LLUNIAU A'R SAIN A RECORDIR GAEL EU DEFNYDDIO AT DDIBENION HYFFORDDI YN GYFFREDINOL

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Gaynor Morgan** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **(01267) 224026** |
| **E-bost:** | **GMorgan@sirgar.gov.uk** |

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**
**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**
**8 AELOD**
(1 Aelod etholedig o bod Awdurdod Cyfansoddol

**CYNGOR SIR GAR**

**CYNGHORYDD** **ELWYN WILLIAMS**

**DINAS A SIR ABERTAWE**

**CYNGHORYDD** **CLIVE LLOYD**

**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

**CYNGHORYDD** **CHRISTOPHER WEAVER**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**CYNGHORYDD** **DAVID HUGHES**

**CYNGOR SIR GWYNEDD**

**CYNGHORYDD** **STEPHEN CHURCHMAN**

**CYNGOR SIR POWYS**

**CYNGHORYDD** **PETER LEWIS**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**CYNGHORYDD** **MARK NORRIS**

**CYNGOR BWRDEISDREF SIROL TORFAEN.**

**CYNGHORYDD** **GLYN CARON**

# A G E N D A

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| 2. | **PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN GALENDAR NESAF.** | |
| 3. | **PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF.** | |
| 4. | **DATGANIADAU O FUDDIANT.** | |
| 5. | **LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 28AIN MAWRTH, 2018.** | 5 - 10 |
| 6. | **CYFLWYNIAD GAN LINK A'R AWDURDOD CYNNAL AR GERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD.** | 11 - 20 |
| 7. | **NODIADAU CYFARFODYDD Y GWEITHGOR SWYDDOGION A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-** | |
| | **7 .1 9FED MAWRTH, 2018;** | 21 - 22 |
| | **7 .2 20FED EBRILL, 2018.** | 23 - 24 |
| 8. | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**<br>**NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y PWYLLGOR, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HON YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.** | |
| 9. | **PROSBECTWS YR AWDURDOD YMDDYGIAD ARIANNOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU.** | 25 - 114 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Mercher, 28 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Stephen Churchman

**Y Cynghorwyr:**

Cllr. Glyn Caron - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
Cllr. David Hughes - Cyngor Sir y Flint;
Cllr. Peter Lewis - Cyngor Sir Powys;
Cllr. Clive Lloyd - Cyngor Dinas a Sir Abertawe;
Cllr. Mark Norris - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
Cllr. Chris Weaver - Cyngor Dinasol Caerdydd;
Cllr. Elwyn Williams - Cyngor Sir Gar

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol - CSG
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith - CSG
D. Edwards, Cyfarwyddwr Cyllid - CSG
P. Latham, Rheolwr Cronfa bensiwn Clwyd - CSF
C. Lee, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, CBSRCT
J. Dong, Dirprwy Swyddog Adran 151, CDSA
C. Salter, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, CDC
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd - CSG
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol - CSG
D. Fielder, Rheolwr Cyllid Pensiwn, CSF
D. Paley, Chyfrifydd Pholisi ac adrodd arianno

t
**SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, YR WYDDGRUG CH7 6NA 10.00 - 11.45 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Mr Graeme Russell, Pennaeth Pensiynau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

| Cynghorydd | Natur y Buddiant Personol |
|---|---|
| G. Caron | Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) |
| S. Churchman | Aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd; |
| D. Hughes | Aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd; |
| P. Lewis | Aelod o Gronfa Powys; |
| C. Lloyd | Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe; |
| M. Norris | Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf; |
| E. Williams | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed; |

Noder: Mae eithriad yng Nghod Ymddygiad Aelodau sy'n galluogi i aelod sydd wedi'i benodi neu'i enwebu i gorff perthnasol gan ei awdurdod ddatgan y budd hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod).

**3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 7FED TACHWEDD 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017 fel rhai cywir.**

**4. CYFLWYNIAD GAN LINK AR CERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD**

Croesawyd Denise Jones - Pennaeth Rheoli Newid yn Link Asset Services gan y Cadeirydd a rhoddodd gyflwyniad ar Gerrig Milltir Allweddol a Chynnydd yr is-gronfeydd.

Cyflwynodd Ms Jones restr o ddyddiadau posib i'r Pwyllgor ar gyfer Cerrig Milltir Allweddol er mwyn sefydlu is-gronfeydd y Bartneriaeth. Byddai'r cronfeydd hyn yn diwallu anghenion yr awdurdodau sy'n buddsoddi, ac yn eu galluogi i roi eu strategaethau dyrannu asedau amrywiol ar waith. Adroddwyd bod dyddiad i gytuno'r is-gronfa gychwynnol, a glustnodwyd ar gyfer 28 Mawrth 2018, wedi'i ohirio a rhagwelwyd y byddai hyn bellach yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â chymeradwyo prosbectws y gronfa, mewn cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor a drefnir ym mis Mai 2017. Byddai Link yn parhau i drafod gyda Rheolwyr Buddsoddi a chynigiwyd y byddai'r cais i'r FCA yn cael ei gyflwyno erbyn 31 Mai 2017, ac y byddai'r Gronfa'n lansio ym mis Medi/Hydref 2018.

Dywedodd Ms Jones y byddai Link, ar yr un pryd â'r is-gronfa gychwynnol, yn bwrw ymlaen gydag is-gronfeydd Cyfran 2 a Chyfran 3; y mae'r naill wedi'i glustnodi i lansio ym mis Tachwedd 2018 a'r llall ym mis Chwefror 2019.

Wrth gyfeirio at ei chyflwyniad, soniodd Ms Jones am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a bod y cynnig ar gyfer cyflwyno'r gronfa gychwynnol wedi'i ystyried gan Weithgor y Swyddogion (GS) ym mis Chwefror 2018 a chynnig cychwynnol am gronfa Fyd-eang a Rhanbarthol, a dewis ychwanegol hefyd ar gyfer cronfa Fyd Eang yn unig. Ar ôl ystyried yr adborth a dderbyniwyd gan y GS, cyflwynodd Link bum dewis diwygiedig i'r Grŵp ym mis Mawrth 2018. Dau gynnig terfynol a drafodwyd gyda Thrysoryddion yr wyth Awdurdod, sef:

- Dewis 1a - dau reolwr presennol ac un rheolwr newydd - Link i benodi rheolwyr (Global Core Fund)

- Dewis 4a, saith rheolwr newydd (pum byd eang a dau ranbarthol) - Russell i gael ei benodi fel prif reolwr y prosbectws a dyrannu gwaith i'r saith rheolwr arall.

Awgrymodd Mr Chris Lee, er mwyn cael eglurdeb, y dylai'r ddau gynnig gael eu hystyried fel cynigion Byd-eang Alffa Uchel.

Mynegodd Mr Dafydd Edwards fod yr amserlen wreiddiol a gynhyrchodd Link wedi'i diwygio er mwyn sicrhau fod y cynigion yn fwy cynhwysfawr. Byddai hyn yn

galluogi i Aelodau'r Pwyllgor a swyddogion gael y wybodaeth berthnasol a chael digonedd o amser i adrodd yn ôl a thrafod y cynigion gyda'u cronfeydd perthnasol.

O ran cynnydd arall, soniwyd i'r Pwyllgor fod Link wedi cysylltu â thri rheolwr buddsoddi ynghylch yr is-gronfa a bod cyfarfodydd dygnwch wedi'u trefnu. Yn ogystal, roedd y prosbectws drafft wedi'i gwblhau a'i drosglwyddo i Burges Salmon er mwyn adolygu a chael sylwadau, ac ar ôl cael mewnbwn pellach gan Eversheds, fe gai'r prosbectws ei drafod gan y Pwyllgor. Yn ogystal, cynhaliodd Link a Russell Investments sesiynau briffio gydag wyth Pwyllgor Cyfansoddol y Gronfa Bensiwn.

Wrth gasglu, soniodd Ms Jones wrth y Pwyllgor am gamau nesaf y broses, fel manylwyd yn y cyflwyniad, a rhoddodd gyfle i holi cwestiynau. Yna, diolchodd y Cadeirydd i Ms Jones am fynychu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai'r cyflwyniad yn cael ei dderbyn.**

## 5. CYLLIDEB PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Hysbysodd Mr Chris Moore, Swyddog Adran 151 y Pwyllgor, y Pwyllgor o gyllideb Partneriaeth Pensiwn Cymru. Dywedodd, gan fod trefniadau Cyfuno megis dechrau, fod y gyllideb wedi'i seilio ar amcangyfrifon gwybodus ar gyfer y tair blynedd nesaf, ac y gallai'r rhain newid yn dibynnu ar lif gwaith y gronfa a gofynion y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor fod y ffigyrau gwirioneddol a ragwelwyd ar gyfer 2017/18 yn is na rhai blynyddoedd i ddod; roedd hyn oherwydd bod trefniadau partneriaeth yn dal i gael eu datblygu. Mae'r rhan fwyaf o swyddogaethau'r Awdurdod Llwyfannu bellach wedi'u sefydlu ac mae angen gwaith pellach ar ddatblygu'r wefan a strwythur staffio terfynol. Caiff cost cyllid yr Awdurdod Llwyfannu ei rhannu rhwng yr wyth awdurdod cyfansoddol.

O safbwynt Cyllid y Gweithredwr a'r Gwasanaethau Eraill, roedd gwariant gwirioneddol yr elfen hon o'r cyllid yn ddibynnol ar drosglwyddo asedau a ffioedd rheoli.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

1. **Nodi'r sefyllfa sydd ohoni gyda chyllideb 2017-18**
1. **Cymeradwyo cyllidebau diwygiedig 2018-19 a 2019-20**
2. **Cymeradwyo cyllideb 2020-2021.**

## 6. DIWEDDARIAD AWDURDOD CYNNAL

Rhoddodd Mr Anthony Parnell y diweddariad a ganlyn i'r pwyllgor ar gyfrifoldebau'r awdurdod llwyfannu.

- Staffio - penodwyd Prif Swyddog Gwasanaethau Cyllidol, a dechreuodd yn y swydd ym mis Ionawr 2018
- Cyfathrebu - roedd gwaith wedi dechrau ar Wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru a chafwyd tri dyfynbris gan ddarparwyr meddalwedd a chai hyn ei werthuso'n fuan. Roedd cylchlythyr dwyieithog yn cael ei ddatblygu ar hyn

o bryd a byddai'n cael ei gyhoeddi bob deufis, gyda'r rhifyn cyntaf ar gael ym mis Ebrill neu Fai 2018.

- Llywodraethu - roedd trefniadau'n gweithio'n dda ar hyn o bryd ar lefel y Cyd-bwyllgor a Swyddogion. Roedd Swyddogion o'r awdurdodau cyfansoddol hefyd yn rhan o is-grwpiau, er mwyn cyfrannu at y gwaith trawsnewidiol angenrheidiol ac roedd trafodaethau wedi dechrau gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn pennu a ellid caffael yr holl geisiadau am wybodaeth am y Bartneriaeth Pensiwn gan yr Awdurdod Llwyfannu.
- Adrodd - roedd trafodaethau cyson yn cael eu cynnal gyda Link a Northern Trust, oedd yn galluogi i Russell Investments gytuno ar ffordd ymlaen wrth adrodd. Roedd Rheolwyr hefyd yn ymgysylltu â grŵp adrodd CIPFA.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr Awdurdod Llwyfannu yn archwilio a fyddai'n beth da penodi ymgynghorydd annibynnol i'r Pwyllgor.

Holwyd a fyddai'r Cydbwyllgor yn trafod buddsoddiadau cyfrifol. Dywedodd Mr Parnell, ar hyn o bryd, fod is-gronfa o fuddsoddi cyfrifol ar draws cronfeydd wedi'i sefydlu a oedd yn cynnwys swyddogion o bob un o'r chwe threfniant cydgyfrannu. Y gobaith oedd y byddai'r broses hon yn arwain at gydsynio ar y ffordd orau i fwrw ymlaen gyda'r buddsoddiadau hyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai'r diweddariad yn cael ei dderbyn.**

**7. NODIADAU CYFARFODYDD Y GWEITHGOR SWYDDOGION A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**7.1. 1AF RHAGFYR 2017**

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod Gweithgor Swyddogion a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2017 YN UNFRYDOL.**

**7.2. 20FED RHAGFYR 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL - derbyn cofnodion cyfarfod Gweithgor Swyddogion a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr, 2017.**

**7.3. 26AIN CHWEFROR 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL - derbyn cofnodion cyfarfod Gweithgor Swyddogion a gynhaliwyd ar 26 Chwefror, 2018.**

**8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 - gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitem a ganlyn gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.**

**9. CYFLWYNIAD GAN LINK / RUSSELL AR IS-GRONFA ECWITI BYD-EANG**

**Yn dilyn y cais prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng nghofnod 8 uchod, y dylid ystyried y mater**

**hwn yn breifat ac y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar sail bod y wybodaeth a drafodir yn yr adroddiad yn cynnwys manylion cyfleoedd buddsoddi nad oedd wedi'u trafod yn llwyr na'u hail-negodi eto, ac y byddai datgelu'r cyflwyniad yn niweidio'r trafodaethau ac yn cael effaith ar gostau a dychweliadau'r Cronfeydd.**

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Peter Hugh Smith - Rheolwr Gyfarwyddwr Link Asset Services, a Sasha Mandich - Cyfarwyddwr, Russell Investments.

Cafwyd trosolwg o weithgaredd, buddsoddiadau ac arbenigedd y ddau gwmni ar lefel byd-eang gan y cynrychiolwyr ynghyd â'r ymdriniaeth i'w defnyddio wrth sefydlu Is-gronfeydd Ecwiti Byd-eang, y proses o benodi is-reolwyr cronfeydd, a'r effaith posib a'r arbedion yn sgil uno cronfeydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai'r cyflwyniad yn cael ei dderbyn ac y byddai'r cynigion yn cael eu derbyn mewn egwyddor, gydag adroddiad pellach i gael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn y man.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**LLYWODRAETHU**

**PENSIWN CYMRU**

**CYDBWYLLGOR**

**PARTNERIAETH**

**DYDDIAD 11 MEHEFIN 2018**

## PWNC

## CYFLWYNIAD GAN LINK A'R AWDURDOD CYNNAL AR GERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD

**YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**I dderbyn cyflwyniad gan Link a'r awdurdod cynnal ar gerrig milltir a diweddariad cynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru**

**RHESYMAU:**

Link a'r awdurdod cynnal i ddarparu diweddariad ar gerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.


| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swydd:** | **Rhif ffôn. 01267 224160** |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Gâr** | **e-bost:**<br>**CMoore@sirgar.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 11 MEHEFIN 2018

## CYFLWYNIAD GAN LINK A'R AWDURDOD CYNNAL AR GERRIG MILLTIR A DIWEDDARIAD CYNNYDD

**CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Link a'r awdurdod cynnal i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar gynnydd a cherrig milltir Partneriaeth Pensiwn Cymru.

| ADRODDIAD MANWL YNGHLWM? | YDY |
|---|---|

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb<br>**DIM** | Cyfreithiol<br><br>**DIM** | Cyllid<br><br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br><br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br><br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| . | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 – Mynediad i Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MAE MANYLION Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Rhif Cyfeirnod y Ffeil** | **Lleoliadau ble mae'r papurau ar gael i'w gweld gan y cyhoedd/DOLEN I'R WEFAN** |
| | | |

# Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

**Dyddiad 11 Mehefin 2018**

**Fersiwn 0.1**



Rhan o **Link Group**

# Cerrig Milltir Allweddol



| Tasg | Dyddiad | COG | Sylw/Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Cytuno ar is-gronfa gychwynnol | 28/03/18 | C | Cytunwyd ar y Cronfeydd Cychwynnol |
| Cytuno ar Dempled Adrodd | 21/03/18 | G | Pecyn enghreifftiol i'w ddarparu yn y gweithdy 27ain Mehefin. |
| Cytundeb y Rheolwr Buddsoddiadau | 30/06/18 | G | Anfonwyd Cytundeb Rheolwr Buddsoddiadau at yr holl Reolwyr Buddsoddiadau a benodwyd gan Link, derbyniwyd sylwadau cychwynnol yn ôl. |
| Cymeradwyo Prosbectws y Gronfa | 11/06/18 | G | Cyd-bwyllgor Llywodraethu i gymeradwyo |
| Cyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol | 15/06/18 | G | |
| Lansio'r Gronfa | 15/10/18 | G | |
| Cytuno ar Gronfeydd – **Tranche 2** | 25/07/18 | G | Cymeradwyo'r rheolwyr ar gyfer yr ail gyfran o gronfeydd. |
| Cymeradwyo Prosbectws y Gronfa | 12/09/18 | G | |
| Cyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol – Tranche 2 | 26/09/18 | G | |
| Lansio'r Gronfa – Tranche 2 | 07/01/19 | G | |
| Cytuno ar Gronfeydd – **Tranche 3** | 06/11/18 | G | Cymeradwyo'r rheolwyr ar gyfer y drydedd gyfran o gronfeydd. |
| Cymeradwyo Prosbectws y Gronfa | 11/01/19 | G | |
| Cyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol – Tranche 3 | 16/01/19 | G | |
| Lansio'r Gronfa – Tranche 3 | 18/04/19 | G | |

# Y cynnydd hyd yn hyn

## Cyflwyno'r Gronfa – Cychwynnol

- Cynnig terfynol wedi'i gyflwyno a'i gytuno gyda'r cadeiryddion ar 28ain o Fawrth 2018
    - Opsiwn 1, 2 rheolwr presennol ac 1 rheolwr newydd - Link i benodi rheolwyr
    - Opsiwn 2, 7 rheolwr newydd – Link i benodi Russell fel rheolwr sylfaenol
- Mae swyddogion a chynghorwyr cyfreithiol allanol wedi cytuno i'r prosbectws
- Y broses ymgysylltu â Rheolwyr Buddsoddiadau yn mynd rhagddi er mwyn cytuno ar Gytundeb Rheolwr Buddsoddiadau
- Cychwynnwyd trafodaethau ynghylch contract gyda Northern Trust:
    - Ymddiriedolwr
    - Gwarchodwr
    - Cyfrifydd y Gronfa
    - Asiant Trosglwyddo
    - Rheolwr Buddsoddiadau
    - Llythyrau Ymgysylltu ag Archwilwyr, cwmniau Cyfreithiol a Threth
- Cytunwyd ar y canllawiau pleidleisio

# Y Camau Nesaf

Tudalen 18

- Penderfynu ar awdurdodaethau ar gyfer ffeiliau treth – **Link 15 Mehefin 2018**
- Cytuno ar adrodd a chychwyn adeiladu **– Link 27 Mehefin 2018**
- Cynnig Dogfen Tranche 2 – **Link 17 Gorffenaf 2018**
- Ymarfer y prosesau gweithredu ar gyfer y Cynllun Contractiol Awdurdodedig – **Link/NT/WPP 27 Mehefin 2018**
- Cytuno ar y gofynion o ran Benthyca Stociau yn y dyfodol – **WPP/Link 13 Gorffenaf 2018**

# Diweddariad Awdurdod Cynnal

- Staffio
- Cyfathrebu
- Llywodraethu
- Adrodd

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Cyfarfod Gweithgor Swyddogion (GS)**

**9 Mawrth 2018 12.30 – 15.00**

**Neuadd y Sir, Llandrindod**

**Nodyn Briffio ar gyfer y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CLl)**

**Yn bresennol:**

Chris Moore (CM), Sir Gaerfyrddin
Anthony Parnell (AP), Sir Gaerfyrddin
Paul James (PJ), Sir Gaerfyrddin
Gareth Henson (GH), Caerdydd
Gary Watkins (GW), Caerdydd
Phil Latham (PL), Sir y Fflint
Debbie Fielder (DF), Sir y Fflint
Dewi Morgan (DM), Gwynedd
Dan Paley (DP), Powys
Chris Lee (CL), RCT
Barrie Davies (BD), RCT
Jeff Dong (JD), Abertawe
Karen Cobb (KC), Abertawe
Graeme Russell (GR), Torfaen

**Mynychwyr eraill:**

Paul Potter (PP), Hymans
Peter Hugh Smith (PHS), Link Asset Services
Eamonn Gough (EG), Link Asset Services
Karl Midl (KM), Link Asset Services
Duncan Lowman (DL), Link Asset Services
Sasha Mandich (SM), Russell Investments
Jim Leggate (JL), Russell Investments

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Dafydd Edwards (DE), Gwynedd
Caroline Roberts (CR), Gwynedd
David Powell (DP), Powys
Jane Thomas (JT), Powys
Joe Rollin (JR), Powys
Yvonne Keitch (YK), RCT
Ben Smith (BS), Abertawe
Nigel Aurelius (NA), Torfaen
Paul Rowles (PR), Torfaen
Christine Salter (CS), Caerdydd

1. **Adroddiad is-gronfa Global Equity**

Roedd adroddiad diwygiedig Link/Russell yn cynnig 5 opsiwn, gyda chyfuniad o reolwyr newydd a rhai presennol. Yn dilyn trafodaeth fanwl, cytunwyd y byddai dwy is-gronfa ecwiti byd-eang. Byddai'r is-gronfa gyntaf yn cynnwys 3 rheolwr, sef 2 reolwr presennol a rheolwr newydd. Byddai'r ail is-gronfa yn cynnwys rheolwr presennol a chyfuniad o reolwyr newydd. Byddai'r ddwy gronfa yn targedu elw dros ben o 2%. Cytunwyd y byddai Link a Russell yn cyflwyno cynnig ynghylch y 2 is-gronfa.

Nid oedd digon o wybodaeth yn yr adroddiad o hyd am ffioedd, costau trawsnewid a materion ESG, Buddsoddi Cyfrifol a materion Stiwardiaeth i wneud penderfyniad gwybodus.

## 2. Prosbectws yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Oherwydd yr amserlenni caeth a'r ffaith y byddai angen cynnwys gwybodaeth am yr is-gronfa ecwiti byd-eang, cytunwyd y byddai bellach yn cael ei gyflwyno ddiwedd mis Ebrill 2018.

**Cyfarfod Gweithgor Swyddogion (GS)**

**20 Ebrill 2018 10.00 – 14.15**

**Neuadd y Sir, Caerdydd**

**Nodyn Briffio ar gyfer y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CLl)**

**Yn bresennol:**

Chris Moore (CM), Sir Gaerfyrddin
Anthony Parnell (AP), Sir Gaerfyrddin
Christine Salter (CS), Caerdydd
Debbie Fielder (DF), Sir y Fflint
Dafydd Edwards (DE), Gwynedd
Chris Hurst (CH), Powys
Dan Paley (DP), Powys
Chris Lee (CL), RCT
Barrie Davies (BD), RCT
Yvonne Keitch (YK), RCT
Jeff Dong (JD), Abertawe
Karen Cobb (KC), Abertawe
Graeme Russell (GR), Torfaen

**Mynychwyr eraill:**

Tracey Williams (TW), Sir Gaerfyrddin (Cofnodi)
Paul Potter (PP), Hymans
Sasha Mandich (SM), Russell Investments
Eamonn Gough (EG), Link Fund Solutions

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Gareth Henson (GH), Caerdydd
Gary Watkins (GW), Caerdydd
Phil Latham (PL), Sir y Fflint
David Powell (DP), Powys
Ben Smith (BS), Abertawe
Nigel Aurelius (NA), Torfaen
Paul Rowles (PR), Torfaen
Jane Thomas (JT), Powys

1. **Cais a phrosbectws drafft yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol**

Mae Burges Salmon wedi gwneud sylwadau amdano. Bydd Link yn rhoi golwg gyffredinol ar y prif feysydd i'r swyddogion eu hystyried/cytuno arnynt. Y nod yw sicrhau bod y ddogfen derfynol yn mynd i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 11 Mai 2018 (os yw'n bosibl) i'w chymeradwyo.

2. **Cynigion ynghylch y ddwy is-gronfa gychwynnol**

Cytunwyd y byddai'r wybodaeth sydd yn y ddogfen derfynol ynghylch y ddwy is-gronfa gychwynnol, a gytunwyd mewn egwyddor gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 28 Mawrth 2018, yn cael ei chynnwys yn y prosbectws.

## 3. Dogfen ddrafft ynghylch rheoli cysylltiadau a darparu gwasanaethau

Cyflwynodd Link bapur ynghylch cyfrifoldebau tîm Link a'r protocolau ymgysylltu. Mae hyn yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cytundeb gweithredwr.

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol